

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYMRU GRYFACH, DECACH A GWYRDDACH

## Atodiad Technegol

Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau

# ADRODDIADAU YSTADEGOL AR DDANGOSYDDION A CHERRIG MILLTIR CENEDLAETHOL

**Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant.**

## Y dangosyddion cenedlaethol sy'n berthnasol i'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yw:

Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (Rhif 8).

Canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro a ddim yn chwilio am gyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf (Rhif 16).

Gwahaniaeth cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd (Rhif 17).

Canran y bobl mewn cyflogaeth (Rhif 21).

Canran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a fesurwyd ar gyfer grwpiau oedran gwahanol (Rhif 22).

## Byddwn yn parhau i adrodd ar bob dangosydd cenedlaethol drwy:

- Adroddiad blynyddol **Llesiant Cymru** sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant, gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol ochr yn ochr â data perthnasol arall.
- **crynodebau data** dangosyddion cenedlaethol unigol.

Lle bynnag y bo modd, bydd y dangosyddion cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig.



## Cerrig Milltir Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o Gerrig Milltir Cenedlaethol. Mae'r cerrig milltir cenedlaethol yn gyfres o fesurau yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol sy'n nodi ein disgwyliadau o'r hyn y dylai'r dangosyddion ei ddangos yn y dyfodol. Byddant yn ein helpu i ddeall a yw'r dangosyddion cenedlaethol yn symud i'r cyfeiriad cywir ac yn ein symud ni fel cenedl tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

## Dyma gerrig milltir cenedlaethol y farchnad lafur sy'n berthnasol i'r Cynllun hwn:

- Bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050
- Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu'n is ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050
- Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050
- Dileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gyda ffocws ar waith teg a chodi cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur
- Dileu'r bwlch cyflog sy'n seiliedig ar rywedd, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050

O 2022 ymlaen, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol o fewn **adroddiad blynyddol Llesiant Cymru** a chrynodebau data dangosyddion cenedlaethol ar-lein.

Lle y bo'n briodol, bydd cyhoeddiadau ystadegol hefyd yn cyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cysylltiedig ac yn darparu dadansoddiad o'r tueddiadau diweddaraf (gweler y Tablau isod am ragor o fanylion), gan gynnwys y rhai ar gyfer blaenoriaethau 2021-26 a nodwyd uchod. O dan ofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, bydd y dyddiad cyhoeddi ar gyfer yr holl gyhoeddiadau ystadegol yn cael ei gadarnhau ar ein **gwefan** o leiaf 4 wythnos cyn eu cyhoeddi.

1

# LEFELAU CYMWYSTERAU A CHYRHAEDDIAD

## Dangosydd Cenedlaethol (Rhif 8)

Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

## Cerrig milltir

1. Bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050

2. Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu'n is ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050.

## Monitro cynnydd

- **Adroddiad blynyddol** Llesiant Cymru (Medi)
- **Crynodeb data** dangosyddion cenedlaethol (Ebrill)
- Datganiad Ystadegol Blynyddol: **Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio** (Ebrill)
- Data StatsCymru y gellir ei lawrlwytho: **Lefelau Cymhwyster** (Ebrill)

## Nodweddion gwarchodedig

Ar lefel Cymru, cyhoeddir data yn ôl nodweddion gwarchodedig gan gynnwys rhywedd, oedran, anabledd ac ethnigrwydd. Ar lefel awdurdod lleol, mae dadansoddiadau o nodweddion gwarchodedig yn dibynnu ar feintiau sampl.


## Y Sefyllfa Ddiweddaraf (Crynodeb)

Dangosodd data a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021 fod lefelau cymwysterau yng Nghymru wedi cynyddu ar y cyfan yn 2020, gan barhau â'r cynnydd cyffredinol a welwyd dros amser. Roedd gan 80.9% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau lefel 2 o leiaf o gymharu â 79.1% yn 2019. Roedd gan 62.3% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau lefel 3 o leiaf o gymharu â 59.4% yn 2019. Nododd gan 7.3% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau o gymharu ag 8.2% yn 2019.

**Lefel cymwysterau uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio, 2008 i 2020**

Y gyfran â chymhwyster addysg uwch neu gymwysterau cyfatebol (NQF lefel 4 neu uwch) oedd 41.4% o gymharu â 38.8% yn 2019. Y newid yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru sydd â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch oedd y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers i ystadegau ddechrau cael eu cyfrifo o dan y diffiniad o'r boblogaeth o oedran gweithio 18 i 64 yn 2008. Roedd hyn hefyd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y gyfran sydd â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch, sef y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers 2008.

Mae amrywiad sylweddol ar lefel awdurdodau lleol. Yn 2020, roedd y cyfrannau uchaf heb unrhyw gymwysterau ym Merthyr Tudful (13.9%) a Blaenau Gwent (11.1%) a'r isaf ym Mro Morgannwg (3.2%) a Sir Fynwy (3.8%). Mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 7.3%.




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)




# LEFELAU CYMWYSTERAU A CHYRHAEDDIAD

**Canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn ôl awdurdod lleol, 2020**

Y gyfran â chymhwyster addysg uwch neu gymwysterau cyfatebol (NQF lefel 4 neu uwch) oedd 41.4% o gymharu â 38.8% yn 2019. Y newid yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru sydd â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch oedd y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers i ystadegau ddechrau cael eu cyfrifo o dan y diffiniad o'r boblogaeth o oedran gweithio 18 i 64 yn 2008. Roedd hyn hefyd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y gyfran sydd â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch, sef y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers 2008.

Mae amrywiad sylweddol ar lefel awdurdodau lleol. Yn 2020, roedd y cyfrannau uchaf heb unrhyw gymwysterau ym Merthyr Tudful (13.9%) a Blaenau Gwent (11.1%) a'r isaf ym Mro Morgannwg (3.2%) a Sir Fynwy (3.8%). Mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 7.3%.





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)

Fodd bynnag, dylid nodi bod bylchau yn lefelau cymwysterau rhwng y DU a Chymru wedi ehangu yn y cyfnod ers cyhoeddi'r cynllun diwethaf yn 2018.

- Cynyddodd y bwlch yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau o 0.7 pwynt canran yn 2018 i 1.2 pwynt canran yn 2020 (Cymru yn uwch na'r DU). Dros y tymor hwy, mae maint y bwlch wedi amrywio.
- Cynyddodd y bwlch yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd yn gymwys i lefel 2 neu uwch o 0.8 pwynt canran yn 2018 i 1.6 pwynt canran yn 2020 (y DU yn uwch na Chymru). Er bod maint y bwlch wedi amrywio, roedd y bwlch yn 2020 yr un faint â'r bwlch mwyaf ers 2008.
- Cynyddodd y bwlch yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd yn gymwys i lefel 3 neu uwch o 2.4 pwynt canran yn 2018 i 2.9 pwynt canran yn 2020 (y DU yn uwch na Chymru). Dros y tymor hwy, mae'r bwlch wedi cynyddu ychydig.
- Cynyddodd y bwlch yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd yn gymwys i lefel 4 neu uwch o 3.8 pwynt canran yn 2018 i 4.3 pwynt canran yn 2020 (y DU yn uwch na Chymru). Dros y tymor hwy, mae'r bwlch wedi cynyddu.

**Lefel y cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio, Cymru a'r DU, 2008 i 2020**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)



2

# POBL IFANC

### Dangosydd Cenedlaethol (No 22)

Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (gwahanol grwpiau oedran)

### Cerrig milltir

3. Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

### Monitro Cynnydd

- **Adroddiad blynyddol** Llesiant Cymru (Medi)
- **Crynodeb data** dangosyddion cenedlaethol (Gorffennaf)
- Datganiad Ystadegol: **Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur** (Gorffennaf), amcangyfrifon APS chwarterol o **Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant** wedi'u cyhoeddi hefyd
- Data StatsCymru y gellir ei lawrlwytho: **Cyfranogiad oedolion a phobl ifanc** (Gorffennaf)

### Nodweddion gwarchodedig

Data a gyhoeddir yn ôl rhywedd. Mae cyfyngiadau data yn golygu nad yw'n bosibl ar hyn o bryd i ddadgyfuno prif fesur y rhai mewn EET yn ôl nodweddion gwarchodedig eraill. Fodd bynnag, cyhoeddir ein mesur eilaidd o'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – y **gyfres Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** - wedi'i ddadansoddi yn ôl oedran ac anabledd, am gyfnod cyfartalog o dair blynedd.

### Y Sefyllfa Ddiweddaraf (Crynodeb)


Defnyddir dwy set ddata i amcangyfrif nifer y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru. Cyhoeddir y prif fesur – y gyfres Datganiad Ystadegol Cyntaf (SFR) – yn flynyddol ac fe'i defnyddir i fesur cynnydd yn erbyn y Dangosydd Cenedlaethol a'r Garreg Filltir. Cyhoeddir amcangyfrifon NEET eilaidd y Gyfres Poblogaeth Flynyddol (APS) bob chwarter.

Cyhoeddwyd amcangyfrifon y gyfres SFR derfynol ar gyfer 2019 ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2020 ym mis Medi 2021. Cyhoeddir amcangyfrifon blynyddol ym mis Gorffennaf fel arfer ond fe'u gohiriwyd yn 2021 oherwydd y bwriad i ail-bwysoli set ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gostyngodd cyfran y bobl ifanc 16-18 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant 1.1 pwynt canran rhwng 2018 a 2019, ac mae bellach yn 88.3%. Dyma'r lefel isaf ers 2011. Mae amcangyfrifon dros dro yn awgrymu bod y gyfran hon wedyn wedi cynyddu i 88.9% yn 2020.

Mae amcangyfrifon dros dro yn awgrymu mai 84.8% oedd cyfran y bobl ifanc 19-24 oed a oedd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn 2020, i fyny o 83.9% yn 2019. Mae hyn yn agos at y lefel uchaf erioed (84.9% yn 2017).

**Pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 2004 i 2020 (dros dro)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)

3

# LEFELAU CYFLOGAETH

### Dangosydd Cenedlaethol (Rhif 21)

Canran y bobl mewn cyflogaeth.

### Cerrig milltir

4. Dileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gyda ffocws ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur.

### Blaenoriaethau ychwanegol i gyflymu cynnydd 2021-26


- Cefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio
- Cau'r bwlch canrannol rhwng y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol sy'n benodol i oedran mewn pobl 16-64 oed.
- Lleihau canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd am gael swydd sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor.

### Monitro Cynnydd

- **Adroddiad blynyddol** Llesiant Cymru (Medi)
- **Crynodeb data** dangosyddion cenedlaethol (chwarterol)
- Datganiad ystadegol chwarterol: **Ystadegau'r Farchnad Lafur: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**
- Data StatsCymru y gellir ei lawrlwytho: **Crynodeb y Farchnad Lafur, gweithgarwch economaidd yn ôl ethnigrwydd, gweithgarwch economaidd yn ôl statws anabledd** (chwarterol)
- **NOMIS** – Rhesymau dros Anweithgarwch Economaidd
- Datganiad HTML: **Dadansoddiad o'r farchnad lafur yn ôl nodweddion gwarchodedig (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2004 i Fawrth 2021**

### Y Sefyllfa Ddiweddaraf (Crynodeb)

Mae canran y bobl 16-64 oed sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu ers 2011. Ar hyn o bryd, y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yw 72.8% (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021). Mae hyn yn cymharu â chyfradd gyflogaeth amcangyfrifedig o 74.5% ledled y DU (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth).




Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau amlwg yn bodoli ar gyfer grwpiau gwarchodedig heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur. Er enghraifft, mae mwy o ddata sydd wedi'i ddadgyfuno o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y canlynol:

- Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru oedd 68.3% o gymharu â 73.0% ar gyfer pobl o gefndir Gwyn.
- Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer menywod yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 oedd 69.5%, o gymharu â 76.1% ar gyfer dynion a 72.8% ledled Cymru.
- Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru oedd 47.5%, o gymharu ag 80.5% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. Mae'r bwlch hwn wedi cau ers 2018. Er ei fod wedi gweld cynnydd ers dechrau'r pandemig, mae'r bwlch yn dal i fod yn llai nag yn 2018. Mae hyn yn defnyddio diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd - nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.
- O'r rhai sy'n economaidd anweithgar ac sydd am gael swydd yng Nghymru, roedd 6.5% yn anweithgar oherwydd salwch hirdymor yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021. Yn gyffredinol, mae'r gyfran hon wedi gostwng o uchafbwynt o 9.5% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016.

### Nodweddion Gwarchodedig

Data cyfradd gyflogaeth wedi'i gyhoeddi ar gyfer grwpiau gwarchodedig gan gynnwys yn ôl rhywedd, oedran, anabledd ac ethnigrwydd.

4

# CYDRADDOLDEB CYFLOG

## Dangosydd Cenedlaethol (Rhif 17)

Gwahaniaeth cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd.

## Cerrig milltir

5. Dileu'r bwlch cyflog sy'n seiliedig ar rywedd, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050.

## Monitro cynnydd

- **Adroddiad blynyddol** Llesiant Cymru (Medi)
- **Crynodeb data** dangosyddion cenedlaethol (chwarterol)
- Cyhoeddiad Ystadegol Blynyddol: **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion** (Hydref/Tachwedd)
- Data StatsCymru y gellir ei lawrlwytho: **Enillion** (blynyddol)

## Nodweddion gwarchodedig

Mae data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn set ddata sydd wedi hen ennill ei phlwyf, ac mae'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae data ar gyfer y bylchau cyflog mewn perthynas ag anabledd a gweithwyr ethnig lleiafrifol yn ei ddyddiau cynnar, ac mae'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Dadansoddiad 2018 o fylchau cyflog mewn perthynas ag anabledd yn y DU oedd y cyntaf i gael ei gynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Y Sefyllfa Ddiweddaraf (Crynodeb)

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar sail tâl llawn amser canolrif yr awr (ac eithrio goramser) ym mis Ebrill 2021 oedd 5.0% yng Nghymru a 7.9% yn y DU.

Yn 2018, talwyd 9.9% yn llai i weithwyr anabl yng Nghymru o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn cymharu â 12.2% ledled y DU.

Yn 2019, talwyd 1.4% yn llai i weithwyr ethnig lleiafrifol yng Nghymru o gymharu â gweithwyr Gwyn. Mae hyn yn cymharu ag 1.9% ledled y DU.

Mae data ar y bylchau cyflog mewn perthynas ag anabledd a gweithwyr ethnig lleiafrifol yn ei ddyddiau cynnar, er enghraifft, dadansoddiad 2018 o fylchau cyflog mewn perthynas ag anabledd yn y DU oedd y cyntaf a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

5

# GWAITH TEG

## Dangosydd Cenedlaethol (Rhif 16)

Canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro a ddim yn chwilio am gyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf.

## Dangosydd Cenedlaethol (Rhif 20)

Cyfran y cyflogeion y pennir eu cyflog drwy gydfargeinio.

## Monitro cynnydd

- **Adroddiad blynyddol** Llesiant Cymru (Medi)
- **Crynodeb data** dangosyddion cenedlaethol (blynyddol)

## Nodweddion Gwarchodedig

Bydd hyn yn dibynnu ar faint y sampl.

## Y Sefyllfa Ddiweddaraf (Crynodeb)

Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu hychwanegu o'r newydd at adroddiad Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021. Bydd y data yn cael eu cyhoeddi yn 2022.





ISBN Digidol Llywodraeth Cymru WG44299 ISBN 978-1-80391-715-3
© Hawlfraint y Goron 2022